Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Prydles Swyddfa

14 Mawrth 2017

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

*Ysgrifennaf atoch o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i wneud cais am y wybodaeth ganlynol:*

1. *A allwch chi gadarnhau'r dyddiad y cafodd y brydles ei llofnodi ar gyfer swyddfa ranbarthol Michelle Brown AC yn Sir y Fflint?*
2. *Pryd yn union y dechreuodd y Cynulliad dalu am y gost rhentu?*
3. *Pa mor aml y gwneir y taliadau? Bob wythnos, bob mis neu bob chwarter?*
4. *Faint mae'r rhent yn ei gostio?*
5. *Fel cyfanswm, faint mae'r Cynulliad wedi'i dalu ar gyfer rhent swyddfa Michelle Brown ar ddyddiad ymateb i'r cais am wybodaeth.*

Rydym wedi darparu'r atebion i'ch cais isod:

1. *A allwch chi gadarnhau'r dyddiad y cafodd y brydles ei llofnodi ar gyfer swyddfa ranbarthol Michelle Brown AC yn Sir y Fflint?*

Ni allwn gadarnhau pryd cafodd y brydles ei llofnodi gan nad oes rhaid i ni gadw copi. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau bod y taliad cyntaf wedi'i wneud ym mis Hydref 2016.
Nid yw'r swyddfa wedi'i meddiannu eto. Mae hyn oherwydd bod y gwaith angenrheidiol i sicrhau diogelwch wedi'i wneud yn anghywir. Nid yw'r gwaith i wneud yn iawn am y gwaith diogelwch anghywir wedi'i wneud eto.

2. *Pryd yn union y dechreuodd y Cynulliad dalu am y gost rhentu?*

Hydref 2016.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@Assembly.Wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

3. *Pa mor aml y gwneir y taliadau? Bob wythnos, bob mis neu bob chwarter?*

Bob chwarter.

4. *Faint mae'r rhent yn ei gostio?*

Talwyd £2,027.93 ar gyfer y cyfnod rhwng 24 Hydref 2016 a 25 Mawrth 2017. Nid oes unrhyw daliadau/ceisiadau eraill wedi'u prosesu eto ar gyfer gwaith/cyfleustod.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF